# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 28 Mawrth 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(57)

### 1. Cwestiynau i Weinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy

Dechreuodd yr eitem am 13.30.

Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf.

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth

Dechreuodd yr eitem am 14.18.

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn.

### 3. Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 14.59.

**NDM4956 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes yn lle Leanne Wood (Plaid Cymru).

**NDM4957 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Lindsay Whittle (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle Leanne Wood (Plaid Cymru).

**Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

### 4. Dadl ar Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar Adfywio Canol Trefi

Dechreuodd yr eitem am 15.00.

**NDM4952 Nick Ramsay (Mynwy)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes: Adfywio Canol Trefi a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Ionawr 2012.

Nodyn: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Mawrth 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**5. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig**

Dechreuodd yr eitem am 15:58.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:**

**NDM4954 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei pholisïau i sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar rymuso cymunedau lleol;

2. Yn cydnabod y rhan y byddai rhewi'r Dreth Gyngor ledled Cymru wedi'i chwarae o ran grymuso aelwydydd yn ariannol;

3. Yn nodi'r rhan y byddai gwella rhyddhad ardrethi busnesau bach yn ei chwarae o ran grymuso busnesau ledled Cymru, gan ganiatáu iddynt ehangu a chyflogi staff newydd;

4. Yn annog llywodraeth leol i weithredu mewn ffordd sy'n dryloyw, yn agored ac yn atebol, a fydd yn annog cymunedau lleol i gymryd mwy o ran mewn democratiaeth leol;

5. Yn nodi y bydd ariannu ysgolion yn uniongyrchol yn eu grymuso i osod eu blaenoriaethau eu hunain; a

6. Yn nodi ymhellach y rhan y gall polisi cynllunio datganoledig ei chwarae o ran grymuso cymunedau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 40 | 52 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 1:

‘ac yn galw am ystyried cyflwyno Bil Hawliau Cymunedol mewn unrhyw adolygiad er mwyn rhoi pwerau ychwanegol i gymunedau lleol yn y system gynllunio, datblygu tai ac amgylchedd lleol’

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 17 | 9 | 27 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Dileu pwyntiau 2, 3 a 4, rhoi’r pwyntiau canlynol yn eu lle, ac ail-rifo’r pwyntiau sy'n dilyn.

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi 1.3 y cant yn fwy o gyllid i awdurdodau lleol nag a wnaed yn Lloegr, ac y bydd hynny’n grymuso cynghorau Cymru i rewi’r dreth gyngor, os dymunant

Yn nodi darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy’n ceisio cryfhau atebolrwydd ac ymgysylltiad mewn democratiaeth leol yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 17 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Dileu pwynt 2 a rhoi yn ei le:

‘Yn credu y byddai agwedd gynaliadwy at gadw’r dreth gyngor yn isel, a ellid ei chyflawni drwy drefniadau llywodraethu cyfrifol gan gynghorau lleol yn hytrach na ffrydiau cyllido o’r brig i lawr, yn helpu i rymuso aelwydydd ledled Cymru yn ariannol’.

**Gan fod gwelliant 2 wedi’i dderbyn, cafodd gwelliant 3 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 2

**Gan fod gwelliant 2 wedi’i dderbyn, cafodd gwelliant 4 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 3:

‘ond yn credu fel sail i hyn bod yn rhaid diwygio ardrethi busnes yn ehangach, gan gynnwys rhoi terfyn ar godiadau bob blwyddyn sy’n rhy uchel.’

**Gan fod gwelliant 2 wedi’i dderbyn, cafodd gwelliant 5 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 4, ac ail-rifo'r pwyntiau sy'n dilyn:

Yn credu y byddai cymunedau lleol yn cymryd mwy o ran mewn democratiaeth leol petai llywodraeth leol yn cael ei chryfhau drwy:

a) cyflwyno Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy mewn etholiadau lleol;

b) cyflwyno pwer cymhwysedd cyffredinol i rymuso cynghorau lleol;

c) lleihau nifer y rheolaethau o'r brig i lawr ar awdurdodau lleol, fel dyletswyddau statudol; a

d) archwilio'r enghreifftiau gorau a gwaethaf o lywodraeth agored a thryloyw ledled Cymru er mwyn rhannu'r arfer gorau hwn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 14 | 0 | 39 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Gwelliant 7 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 5

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 7:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 12 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 7.**

**Gwelliant 8 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Cynnwys ar ddiwedd pwynt 5:

'ac yn galw am adolygiad cyflawn o atebolrwydd ysgolion, gan archwilio'n benodol atebolrwydd lleol ac arweinyddiaeth briodol i gyrff llywodraethu'

**Gan fod gwelliant 7 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliant 8 ei ddad-ddethol.**

**Gwelliant 9 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 6

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 9:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 17 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 9.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4954 William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i adolygu ei pholisïau i sicrhau bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar rymuso cymunedau lleol.

2. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi 1.3 y cant yn fwy o gyllid i awdurdodau lleol nag a wnaed yn Lloegr, ac y bydd hynny'n grymuso cynghorau Cymru i rewi'r dreth gyngor, os dymunant.

3. Yn nodi darpariaethau Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, sy'n ceisio cryfhau atebolrwydd ac ymgysylltiad mewn democratiaeth leol yng Nghymru.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 17 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 6. Dadl Plaid Cymru

Dechreuodd yr eitem am 16.59.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM4953 Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn credu bod cynnig Llywodraeth y DU i gyflwyno cyflogau rhanbarthol i'r sector cyhoeddus yn anghyfiawn i weithwyr, yn andwyol i economi Cymru ac yn niweidiol i fusnesau.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 36 | 0 | 17 | 53 |

**Derbyniwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

## Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd y Cyfnod Pleidleisio am 17.57.

## 7. Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.01.

**NDM4951 Sandy Mewies (Delyn):**

Cyrsiau Adsefydlu Yfed/Gyrru.

Yr angen parhaus i sicrhau bod y cyrsiau hyn yn cael eu darparu yng Nghymru yn dilyn llwyddiant cyrsiau blaenorol i leihau cyfraddau aildroseddu.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:18.

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, ddydd Mawrth, 24 Ebrill 2012**